# Strategaeth Cynaliadwyedd

TAFLEN GLAWR

## Manylion Allweddol

| | |
|---|---|
| ***TEITL POLISI*** | *Strategaeth Cynaliadwyedd* |
| ***DYDDIAD CYMERADWYO*** | *7 Mai 2025* |
| ***CORFF CYMERADWYO*** | *Bwrdd Academaidd* |
| ***FERSIWN*** | *1.1* |
| ***DYDDIADAU YR ADOLYGIAD BLAENOROL*** | *Medi 2020* |
| ***DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF*** | *Mawrth 2027* |
| ***CANLYNIAD ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB*** | ** Dim newid mawr* |
| ***POLISÏAU / GWEITHDREFNAU / CANLLAWIAU CYSYLLTIEDIG*** | *Strategaeth 2030*<br>*Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030*<br>*Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd Targedau Cynaliadwyedd a Rheoli Carbon*<br>*Polisi Teithio a Threuliau Busnes*<br>*Polisi Bancio a Buddsoddi Moesegol*<br>*Polisi Gyrfaoedd*<br>*Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol*<br>*Polisi Masnach Deg*<br>*Polisi Caffael Cynaliadwy*<br>*Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd*<br>*Polisi Bwyd Cynaliadwy*<br>*Polisi Bwyd Môr Cynaliadwy*<br>*Polisi Cysur Thermol*<br>*Polisi Bioamrywiaeth*<br>*Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy*<br>*Polisi Rheoli Gwastraff*<br>*Polisi Rheoli Dŵr*<br>*Cynllun Teithio* |
| ***DYDDIAD GWEITHREDU*** | *Mawrth 2025* |
| ***PERCHENNOG Y POLISI (TEITL SWYDD)*** | *Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd* |
| ***UNED / GWASANAETH*** | *Yr Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd* |

| | |
|---|---|
| ***E-BOST CYSWLLT*** | *sustainability@cardiffmet.ac.uk* |

## Rheoli Fersiynau

| ***FERSIWN*** | ***DYDDIAD*** | ***RHESWM DROS NEWID*** |
|---|---|---|
| *1.0* | *Medi 2020* | *Fersiwn cyntaf* |
| *1.1* | *Mawrth 2025* | *Adolygu* |

## Hyb Polisi

I gael rhagor o wybodaeth am bolisïau:

1. Gallwch fynd i dudalennau'r Ysgrifenyddiaeth ar InSite yn https://outlookuwicac.sharepoint.com/sites/Secretariat;
2. Gallwch fynd i'r Hyb Polisi yn cardiffmet.ac.uk/about/policyhub; neu
3. Cysylltwch â policies@cardiffmet.ac.uk.

Cynnwys

Manylion Allweddol ........ 1
Rheoli Fersiynau ........ 2
Hyb Polisi ........ 2
1 Cyflwyniad ........ **Error! Bookmark not defined.**
2 Strategaeth ........ 6
3 Trefnu Cynaliadwyedd ........ 6
4 Grymuso Cynaliadwyedd ........ 8
5 Cyflawni Cynaliadwyedd ........ 9
6 Rolau a Chyfrifoldebau ........ 11
7 Polisïau a Strategaethau Cysylltiedig ........ 12
8 Atodiadau ........ 13
Atodiad 1 ........ 13

# Strategaeth Cynaliadwyedd

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Pwrpas

Mae Strategaeth Gynaliadwyedd y Brifysgol a'i strategaethau a'i pholisïau ategol, yn darparu fframwaith i gydlynu ein huchelgeisiau a'n gweithredoedd mewn perthynas â chynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy. Rydym yn cydnabod bod gennym effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid inni fod yn gymydog da i'n cymunedau a chefnogi ein staff a'n myfyrwyr i fod yn ddinasyddion cyfrifol, byd-eang. Felly, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), byddwn yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

### 1.2 Cwmpas

Gellir cymhwyso'r egwyddorion sy'n tanlinellu'r weledigaeth graidd ar gyfer Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn uniongyrchol i'r ffordd rydym ni fel sefydliad yn bwriadu lliniaru effaith newid hinsawdd.

Mae'r Brifysgol wedi gosod ymrwymiad corfforaethol i ddarparu:  Cwmpas 1 a 2: Sero Carbon Net erbyn 2030; Cwmpas 3: Gostyngiad o 30% mewn allyriadau carbon erbyn 2030.  Gosodir targedau yn erbyn blwyddyn sylfaen 2018/19, sy'n cynrychioli'r flwyddyn lawn olaf o fusnes fel arfer cyn y pandemig ac alinio'r Brifysgol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyflawni Sero Net erbyn 2030.

Mae ein Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030 yn nodi ein llinell sylfaen carbon, targedau, camau gweithredu ac uchelgais i gyflawni Carbon Sero Net. Cânt eu cyflawni drwy arweinyddiaeth a llywodraethu cadarn, dadansoddi a chynllunio, ac yn hollbwysig, ymgysylltiad llawn gan gydweithredwyr allweddol a rhanddeiliaid sefydliadol.

Fel sefydliad Addysg Uwch, rydym yn cydnabod y cyfle sydd gennym rhaid gallu dylanwadu ac arwain trwy esiampl. Gallwn ddylanwadu ar ein cadwyni cyflenwi ac yn hollbwysig paratoi cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn wynebu effaith uniongyrchol newid yn yr hinsawdd.

Byddwn yn datblygu diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff, myfyrwyr, contractwyr, cyflenwyr a'r gymuned leol. Rydym wedi ymrwymo i wella ein System Reoli Amgylcheddol (SRhA) yn barhaus i fodloni gofynion ISO 14001, gan ymgysylltu â staff, myfyrwyr, contractwyr, cyflenwyr a'r gymuned leol i newid ymddygiad i liniaru effaith y Brifysgol ar yr amgylchedd a'r hinsawdd.

Mae'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hon wedi'u nodi yn y mecanweithiau cyflawni a gynhwysir yn y strategaeth hon.

## 1.3 Diffiniadau

1.3.1 Mae **Carbon Net Sero** yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng faint o nwyon tŷ gwydr (GHG) y mae'r Brifysgol yn ei gynhyrchu a faint sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer. Gellir ei gyflawni trwy gyfuniad o leihau allyriadau a dileu allyriadau.

1.3.2 **Cwmpas 1 -** mae'n cwmpasu allyriadau uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo iddynt neu rai a reolir, gan gynnwys hylosgi tanwydd ar y safle megis boeleri nwy a cherbydau fflyd

1.3.3 **Cwmpas 2 -** mae'n cwmpasu allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu ynni a brynwyd (trydan neu wres a brynwyd).

1.3.4 **Cwmpas 3 -** mae'n cynnwys yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill sy'n digwydd yng nghadwyn werth cwmni. Mae hyn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â chaffael, teithio busnes, cymudo staff a gwastraff uniongyrchol. Mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth atafaeliad - tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer.

1.3.5 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gyfraith sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Pwrpas y ddeddf yw sicrhau bod gweithredoedd yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

1.3.6 **ISO 14001** Mae gweithgareddau'r Brifysgol yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001. Cefnogir hyn gan gyhoeddiad ac adrodd ar amcanion clyfar a blaenoriaethau i gyflawni'r EMS, y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r Cynllun Rheoli Carbon gyda pholisïau thema cynaliadwyedd.

1.3.7 **Nodau Datblygu Cynaliadwy** - Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) yn set o 17 nod a sefydlwyd yn 2015 gan y Cenhedloedd Unedig (CU). Bwriad y nodau yw creu byd mwy cynaliadwy a theg drwy fynd i'r afael â heriau byd-eang.

1.3.8 Rydym wedi ymrwymo i wreiddio'r nodau perthnasol yn ein proses fusnes ac academaidd, fel y nodir gyda rhifau Nodau Datblygu Cynaliadwy




**Commented [MOU1]:** These images are not editable. Please see below translations:

No poverty – Dim tlodi
Good health and well-being - Iechyd a llesiant da
Quality education – Addysg o ansawdd
Clean water and sanitation - Dŵr glân a glanweithdra
Affordable and clean energy – Ynni glân a fforddiadwy
Sustainable cities and communities – Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy
Life below water – Bywyd o dan y dŵr
Life on land – Bywyd ar y tir

# 2 Strategaeth

## 2.1 Cyd-destun Cynllunio

2.1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol - Cydweithio i ddarparu Cymru iachach, hapusach a thecach. Helpu i greu Cymru rydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol trwy:

2.1.1.1 **Agwedd hirdymor** sy’n sicrhau bod y Brifysgol yn cymryd golwg tymor hwy i gydnabod yr angen i fynd i’r afael â llesiant cenedlaethau’r dyfodol

2.1.1.2 **Atal** a mynd i'r afael â phroblemau yn gynnnar, yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau'r problemau hyn yn ddiweddarach.

2.1.1.3 **Integreiddio** wrth i ni gydnabod y rhyngberthynas sy’n bodoli rhwng cymdeithasol, canlyniadau ac effeithiau economaidd ac amgylcheddol.

2.1.1.4 **Cydweithio** gan ein bod yn cydnabod na ellir datrys llawer o’r atebion i’r heriau cynaliadwyedd byd-eang a chenedlaethol heb gydweithio mewn partneriaeth â’n cymunedau.

2.1.1.5 **Cynnwys ac ymgysylltu** wrth i ni ddeall pwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt.

## 2.2 Pileri ar gyfer llwyddiant

2.2.1 **Trefnu cynaliadwyedd**: Byddwn yn gwreiddio diwylliant o gynaliadwyedd sydd wedi’i wreiddio yn ein ffordd o feddwl a’n hymddygiad

2.2.2 **Grymuso cynaliadwyedd**: Byddwn yn meithrin gallu ein myfyrwyr, staff a chymunedau i hyrwyddo cynaliadwyedd.

2.2.3 **Cyflawni cynaliadwyedd**: Byddwn yn gwneud cyfraniad rhagweithiol a chadarnhaol i gynaliadwyedd ein hamgylchedd,

# 3 Trefnu Cynaliadwyedd

3.1 **Dull strategol:** Byddwn yn sefydlu diwylliant o gynaliadwyedd ar draws y sefydliad sy'n dangos ein hymrwymiad i egwyddorion datblygu cynaliadwy.

3.2 **Amcanion Strategol: -**

| **Beth ydym ni am ei gyflawni?** | |
|---|---|
| Diwylliant o gynaliadwyedd sydd wedi’i wreiddio yn ein ffordd o feddwl a’n hymddygiad | |
| **BYDDWN YN…** | |
| Gweithredoedd | Mecanweithiau cyflenwi |
| Sicrhau bod atebolrwydd am gynaliadwyedd yn rhan annatod o strwythurau llywodraethu’r sefydliad | Gweithgor Gweithredu Hinsawdd<br>Bwrdd y Llywodraethwyr<br>Undebau Llafur |

| | |
|---|---|
| | Undeb y Myfyrwyr |
| Sicrhau bod polisïau ac arferion y brifysgol yn effeithio'n gadarnhaol ar bob math o gynaliadwyedd | Polisi Teithio a Threuliau Busnes<br>Polisi Bancio a Buddsoddi Moesegol<br>Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol<br>Polisi Masnach Deg<br>Polisi Caffael Cynaliadwy<br>Cynllun Rheoli Carbon<br>Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Polisi Bwyd Cynaliadwy<br>Polisi Bwyd Môr Cynaliadwy<br>Polisi Cysur Thermol<br>Polisi Bioamrywiaeth<br>Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy<br>Polisi Rheoli Gwastraff<br>Polisi Rheoli Dŵr<br>Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd<br>Cynllun Teithio |
| Mabwysiadu ymagwedd gadarn, seiliedig ar dystiolaeth at fesur a monitro cynaliadwyedd ym Met Caerdydd | Achrediad Rheolaeth Amgylcheddol ISO14001<br>Pobl a Phlaned<br>InSite / MetCanolog<br>Gwefan y Brifysgol<br>Ffurflenni HESA a Llywodraeth Cymru |
| Dathlu cyflawniadau allweddol mewn cynaliadwyedd ar bob lefel | InSite<br>Llwyddiant Gwobr Allanol<br>Gwefan y Brifysgol |
| Sicrhau negeseuon clir a chryno sy'n briodol i'r gynulleidfa ar gynaliadwyedd | InSite / MetCanolog<br>Sgriniau cyfryngau<br>Cyfryngau Cymdeithasol<br>Gwefan y Brifysgol |
| Gweithio gyda chyflenwyr sydd â pholisïau amgylcheddol a chynaliadwyedd moesegol cadarn. | Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol<br>Polisi Caffael Cynaliadwy |
| Buddsoddi cyllid y brifysgol yn foesegol ac mewn meysydd sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd | Polisi Bancio a Buddsoddi Moesegol |
| Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd | Proses gyllidebu<br>Gweithgor Gweithredu Hinsawdd |
| Cyfleu llwyddiant ein gweithredoedd yn agored ac yn dryloyw | InSite / MetCanolog<br>Gwefan y Brifysgol<br>Cyfryngau cymdeithasol<br>Ennill Gwobrau Allanol |

| | |
|---|---|
| | |

## 4 Grymuso cynaliadwyedd

4.1 **Dull Strategol**: Byddwn yn sicrhau bod ein staff, myfyrwyr a chymunedau lleol yn gwerthfawrogi cynaliadwyedd ac yn cael eu grymuso i weithredu mewn modd cynaliadwy

4.2 **Amcanion Strategol**:

| **Beth ydym ni am ei gyflawni?** | |
|---|---|
| Meithrin gallu ein myfyrwyr, staff a chymunedau i hyrwyddo cynaliadwyedd. | |
| **BYDDWN YN…** | |
| Gweithredoedd | Mecanweithiau cyflenwi |
| Cryfhau ac ymestyn partneriaethau strategol allanol perthnasol i wella dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn ein myfyrwyr, staff a chymunedau allanol | Cadwch Gymru'n Daclus<br>Caffi Trwsio Cymru<br>Ail-lenwi Caerdydd<br>WRAP<br>EAUC<br>AUDE<br>Strategaeth Undeb y Myfyrwyr<br>Green Squirrel<br>Hyfforddiant Beicio Cymru<br>Cyngor Caerdydd – Bwrdd Argyfwng Hinsawdd<br>Warp-IT<br>Bws Caerdydd<br>Fy Nhaith<br>Cardiff Digs – banciau dillad ar y Campws |
| Grymuso unigolion a grwpiau i hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn a thu allan i'r sefydliad | Sefydlu Staff<br>Datblygiad staff<br>Marchnadoedd Budd - sioeau teithiol<br>Dyddiau Cymunedol<br>Gweithdai Gwyrdd<br>Caffis Trwsio<br>Canolfan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y gymuned<br>Sefydliad ail-lenwi<br>Strategaeth Undeb y Myfyrwyr<br>Cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr |

| | |
|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i gynnig rhaglen o weithgareddau arloesol sy'n annog cynaliadwyedd | Canolfan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y gymuned<br>Caffi Trwsio Cymru<br>Sefydliad ail-lenwi<br>Strategaeth Undeb y Myfyrwyr<br>Cyngor Caerdydd – Bwrdd Argyfwng Hinsawdd<br>Gweithdai Gwyrdd |
| Integreiddio ystyriaeth o gynaliadwyedd i brosesau sefydlu a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff a myfyrwyr. | Rhaglen sefydlu ar gyfer staff/myfyrwyr/darlithoedd gwadd ar Gynaliadwyedd<br>Hwyluso Prosiectau Byd Go Iawn<br>Strategaeth Undeb y Myfyrwyr<br>Hyfforddiant Llythrennedd Carbon |
| Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli a gweithgareddau allgyrsiol cysylltiedig â chynaliadwyedd | Hwyluso Prosiectau Byd Go Iawn<br>Dyddiau cymunedol<br>Archwilwyr Mewnol Myfyrwyr<br>EDGE<br>Datganiad HEAR<br>Strategaeth Undeb y Myfyrwyr |
| Gwreiddio datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn ein cwricwla ym mhob Ysgol. | Cynlluniau ysgol<br>Fframwaith y Cwricwlwm<br>Strategaeth Asesu Dysgu ac Addysgu<br>Hwyluso Prosiectau Byd Go Iawn<br>Llythrennedd Carbon<br>Modiwl NDC<br>Modiwl Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol |
| Cynnal ymchwil sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth o, a gwelliannau i gynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy | Ysgolion<br>Academyddion<br>Cynlluniau Ymchwil |

## 5 Cyflawni Cynaliadwyedd

5.1 **Dull Strategol**: Byddwn yn gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn lleihau unrhyw effaith andwyol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

5.2 **Amcanion Strategol**:

| **Beth ydym ni am ei gyflawni?** |
|---|
| Gwneud cyfraniad rhagweithiol a chadarnhaol at gynaliadwyedd ei amgylcheddau. |
| **BYDDWN YN…** |

| | |
|---|---|
| Gweithredoedd | Mecanweithiau cyflenwi |
| Sicrhau bod datblygiadau campws yn dystiolaeth o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd | Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd Targedau Cynaliadwyedd a ffocws rheoli carbon<br>Cynllun Rheoli Carbon<br>Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Polisi Cysur Thermol<br>Polisi Bioamrywiaeth<br>Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy<br>Polisi Rheoli Gwastraff<br>Polisi Rheoli Dŵr<br>Cynllun Teithio<br>Astudiaethau achos prosiectau Byd Go Iawn |
| Ymrwymo i garbon net sero erbyn 2030 | Cynllun Rheoli Carbon<br>Targedau cynaliadwyedd a ffocws rheoli carbon<br>Polisi Teithio a Threuliau Busnes<br>Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Polisi Cysur Thermol<br>Polisi Bioamrywiaeth<br>Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy<br>Polisi Rheoli Gwastraff<br>Polisi Rheoli Dŵr<br>Cynllun Teithio<br>Hyfforddiant Llythrennedd Carbon |
| Cynnal achrediad ISO140001 | Achrediad ISO14001<br>Gweithgor Gweithredu Hinsawdd<br>Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Polisi Ymgysylltu â Chynaliadwyedd |
| Sicrhewch radd dosbarth 1af ar gyfer Cynghrair Gwyrdd People and Planet | Cynghrair Pobl a'r Blaned Werdd<br>Gweithgor Gweithredu Hinsawdd |
| Lleihau faint o wastraff rydym yn ei gynhyrchu | Polisi Rheoli Gwastraff<br>ISO14001<br>Polisi Bwyd Cynaliadwy<br>Polisi Caffael Cynaliadwy<br>Cynllun Rheoli Carbon<br>Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy<br>Polisi Caffael Cynaliadwy<br>Hyfforddiant staff |

| | |
|---|---|
| | Digwyddiadau hyfforddi ac ymwybyddiaeth myfyrwyr<br>Cynefino Neuaddau<br>Archwiliadau gwastraff<br>Adrodd ac ymchwilio i halogiad<br>Warp-It |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am ailgylchu ac Ailddefnyddio ymhlith staff, myfyrwyr a'n cymunedau | Polisi Rheoli Gwastraff<br>Warp-It<br>Dyddiau Cymunedol<br>Caffis Trwsio<br>Cardiff Digs – banciau dillad ar y Campws |
| Lleihau ein defnydd o ddŵr ac ailgylchu ac Ailddefnyddio lle bo modd | Cynllun Rheoli Carbon<br>ISO14001<br>Caffis Trwsio<br>Warp-It<br>Polisi Rheoli Dŵr<br>Polisi Bioamrywiaeth |
| Parhau i hyrwyddo dewisiadau amgen i deithio mewn car, yn enwedig teithio mewn car i feddiannaeth sengl | Cynllun teithio<br>Dyddiau Cymunedol<br>Caffis Trwsio<br>Mentrau ar y Campws<br>Ceir pwll<br>Cerbydau trydan<br>Gwasanaeth bws Met Wibiwr |
| Datblygu mecanweithiau ar gyfer lleihau a gwrthbwyso teithiau busnes | Polisi Teithio a Threuliau Busnes<br>Cynllun Rheoli Carbon<br>Cynllun Teithio<br>Llwyfan Teithio Allweddol |
| Bod yn arwain y sector o ran cynaliadwyedd gwasanaethau bwyd a lletygarwch | Polisi Bwyd Cynaliadwy<br>Polisi Bwyd Môr Cynaliadwy<br>Polisi Masnach Deg<br>Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Cymdeithas Bwytai Cynaliadwy (SRA)<br>TUCO<br>Ail-lenwi<br>Ennill Gwobrauz Allanol |
| Cynnal ymchwil mewn modd sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ein hamgylcheddau. | Ysgolion<br>RIS<br>Pwyllgor Moeseg<br>Strategaeth Ymchwil ac Arloesi |

## 6 Rolau a Chyfrifoldebau

6.1 **Ymgynghoriad Cynaliadwyedd**

6.1.1 Mae staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymuned leol yn cael cyfle i wneud gwahaniaeth gyda syniadau cynaliadwyedd. Croesewir pob syniad cynaliadwyedd, caiff y syniadau hyn eu cyflwyno a'u hystyried yn y Gweithgor Gweithredu Hinsawdd.

6.2 **Grwpiau Ffocws**

6.2.1 Mae'r broses ymgynghori ar bolisïau a strategaethau yn rhoi'r cyfle i staff, myfyrwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill roi adborth naill ai'n bersonol neu ar-lein mewn grwpiau ffocws, yn ogystal â thrwy gydol y flwyddyn trwy e-bostio'r adran gynaliadwyedd. Cyflwynir yr adborth a dderbynnir i'w ystyried yn ffurfiol trwy'r Gweithgor Gweithredu Hinsawdd. Mae'r adborth hwn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r holl bolisïau a strategaethau cynaliadwyedd.

6.3 **Gweithgor Gweithredu Hinsawdd**

6.3.1 Mae Perchnogion Agwedd a Chynrychiolwyr Ysgolion yn mynychu'r gweithgor Gweithredu Hinsawdd i gadarnhau cynnydd ffocws y Targedau Cynaliadwyedd a Rheoli Carbon a rheolaeth y System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001.

6.4 **Sut i gymryd rhan**

6.4.1 Ewch i'n gwefan. Cysylltwch â Sustainability@cardiffmet.ac.uk

6.5 **Adrodd a Chynnydd**

6.4.1 Mae agwedd allweddol yn ein System Rheoli Amgylcheddol, sef Ymwybyddiaeth Amgylcheddol, yn cynnwys targedau ac amcanion penodol ar gyfer gwelliant parhaus. Adroddir ar adnoddau, cyllideb a chynnydd i'r Gweithgor Gweithredu Hinsawdd.

# 7 Polisïau a Strategaethau Cysylltiedig

7.1 <u>Strategaethau</u>

7.1.1 Strategaeth 2030
7.1.2 Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd
7.1.3 Cynllun Rheoli Carbon 2024 – 2030

7.2 <u>Polisïau</u>

7.2.1 Polisi Teithio a Threuliau Busnes
7.2.2 Buddsoddi Moesegol a Pholisi Bancio
7.2.3 Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol
7.2.4 Polisi Masnach Deg
7.2.5 Polisi Bwyd Cynaliadwy
7.2.6 Polisi Caffael Cynaliadwy
7.2.7 Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd

7.2.8 Polisi Bwyd Môr Cynaliadwy
7.2.9 Polisi Cysur Thermol
7.2.10 Polisi Bioamrywiaeth
7.2.11 Polisi Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy
7.2.12 Polisi Rheoli Gwastraff
7.2.13 Polisi Rheoli Dŵr

# 8 Atodiadau

## Atodiad 1

| **Mesur** |
| --- |
| Mae Targedau Cynaliadwyedd a ffocws Rheoli Carbon wedi'u dogfennu fel rhan o ISO 14001 ein System Rheoli Amgylcheddol<br><br>Adroddir ar gynnydd Targedau Cynaliadwyedd a ffocws Rheoli Carbon i'r Gweithgor Gweithredu Hinsawdd a'u cyhoeddi<br><br>Adolygiad Allanol Blynyddol o ISO 14001<br><br>Adolygiad archwiliwr mewnol o system reoli amgylcheddol pob maes bob blwyddyn gan staff hyfforddedig a myfyrwyr sy'n wirfoddolwyr.<br><br>Cyhoeddi ein safle yng Nghynghrair Werdd Pobl a Planet Green Prifysgol y DU yn flynyddol |